



Tasg 2

Bwyta ar y we

Rydych chi'n mynd i fwyta swper ar y we fel Park Seo-Yeon bedair (4) noson yr wythnos.

Mewn pâr, cynlluniwch:

- pa nosweithiau?
- faint o'r gloch?
- beth ydych chi'n mynd i fwyta? (Rhaid cael swper enfawr!)
- beth fydd ar y rhaglen? (Ydych chi'n mynd i goginio ar y rhaglen? Ydych chi'n mynd i roi tips? Ydych chi'n mynd i siarad am fwyd? Ydych chi'n mynd i fwyta'n unig?)

Ysgrifennwch eich syniadau.

Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau pâr arall.

Nawr, ysgrifennwch sgript ar gyfer y rhaglen.

